5. Cwm Colhuw

Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 151 yr A.O. Prif fynedfa: ST 041778, Maes parcio: ST 043778
Statws	Mae'r safle wedi'i ddynodi'n rhannol fel cofadail hynafol rhestredig ac mae oddi mewn i Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
Daliadaeth	Mae'r safle'n cael ei ddal ar brydles 99 mlynedd gan Gyngor Bro Morgannwg ers mis Chwefror 1989.
Maint	11.5 he (28.4 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	1 km i'r de orllewin o Lanilltud Fawr, ar ochr dde ddwyreiniol ffordd y traeth. Mynediad ar droed naill ai o gamfa ym mhen y cwm (SS968678) neu drwy gyfrwng stepiau o ochr ddwyreiniol maes parcio'r traeth. Mae llwybr troed cyhoeddus yn rhedeg ar hyd y warchodfa, ac mae llwybr troed yr Arfordir Treftadaeth yn croesi'r safle, ar frig y clogwyn. Nid oes modd mynd â chadair olwyn i'r safle yma.
Cludiant cyhoeddus	Trenau o Ben-y-bont ar Ogwr a gwasanaeth bws 142 o Ben-y-bont ar Ogwr, X44 a X2 o Gaerdydd i Lanilltud Fawr ac yna cerdded tua'r traeth.

Disgrifiad: Glaswelltir calchaidd arfordirol, coetir o ynn a phrysgwydd. Mae'r warchodfa wedi'i lleoli ar lethr deheuol Afon Colhuw. Mae cedyn post ag arno lun Cwm Colhuw yn y 1930au yn dangos y warchodfa fel porfa agored gyda phrysgwydd yma ac acw. Daeth y pori i ben yn ystod yr Ail Ryfel Byd a defnyddiwyd y safle ar gyfer alotmentau yn yr ymgyrch "Cloddio am Fuddugoliaeth" ac yna tyfodd Drain Gwynion, Drain Duon, Eithin a Mieri ar y rhan fwyaf o'r llechwedd, gyda choetir Ynn eilradd yn meddiannu'r pen mewndirol.

Mae'r llwyni a'r gwrychoedd yn gynefin nythu delfrydol ar gyfer nifer o adar, yn cynnwys Coch y Berllan, Nico, y Troellwr Bach, Llinos a'r Bras Melyn, ac maent yn rhoi cartref i adar mudol yr haf, fel Telor yr Hesg a'r Llwydfron. Mae'r Cudyll yn magu ar y clogwyni gerllaw ac yn defnyddio'r glaswelltir i hela, ac mae'r Hebog Tramor i'w weld yn rheolaidd yma hefyd.

Mae dau gae o laswelltir calchaidd ar frig y llethr yn llawn Ceirchwellt a Chawn Penwyn, gyda chlystyrau o Byswellt, Pys y Ceirw (6-9), Gwyddlwyn Cyffredin (5-8), Meillion Melyn (6-9) a Theim Gwyllt (5-7) yn y glaswellt byrrach sydd wedi'i bori gan gwningod, ac ar y twmpathau morgrug a'r gweddillion archaeolegol. Yn genedlaethol brin, mae Bresych Gwyllt yn tyfu ger ymyl y clogwyn, yn y mannau sydd wedi'u cysgodi rhag anifeiliaid pori. Mae'r glaswelltir yn darparu cynefin ar gyfer glöynnod byw fel y Glesyn Cyffredin (4-9), Llwyd y Ddôl (6-9), Iâr Fach y Ffridd (5-9), yr Iâr Fach Fodrwyog (6-7) a'r Glesyn Bach (5-6 + 8).

Mae'r warchodfa'n cynnwys rhan o glawdd terfyn a ffosydd hen Gaer Bentir o'r Oes Haearn. Mae'r rhan fwyaf o'r Gaer, yn cynnwys y rhagfuriau trawiadol, a elwir yn lleol yn "Ffosydd y Castell", ychydig y tu allan i derfyn y warchodfa i'r dwyrain.



Nodau Rheoli: Rheoli'r glaswelltir calchaidd drwy dorri a phori, creu system o lennyrch yng nghanol y prysgwydd a gadael i'r coetir aeddfedu.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Mai	Adar mudol y gwanwyn
Ebrill – Medi	Blodau a phryfed hoff o galchfaen, yn cynnwys glöynnod byw.
Medi – Tachwedd	Ffwng